

Cyflwyniad i'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir – rhan o Gwricwlwm i Gymru

Datblygwyd y cwricwlwm hwn ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir am ei fabwysiadu, pe bydden nhw'n dymuno gwneud hynny. Dylai lleoliadau sy'n dewis mabwysiadu'r cwricwlwm hwn ei ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gefnogi cynllunio effeithiol er mwyn sicrhau cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf.

At ddefnydd y canlynol y mae yn bennaf:

- arweinwyr, ymarferwyr a phwyllgorau rheoli lleoliadau meithrin nas cynhelir sy'n cael eu hariannu i ddarparu addysg gynnar yng Nghymru
- arweinwyr, ymarferwyr a phwyllgorau rheoli lleoliadau meithrin nas cynhelir nad ydyn nhw'n cael eu hariannu i ddarparu addysg gynnar ond y mae'n ofynnol, o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, iddyn nhw ymarfer yn unol â gofynion statudol y cwricwlwm

Wrth gyflawni dyletswydd statudol Llywodraeth Cymru, mae'r cwricwlwm hwn yn bodloni'r gofynion canlynol:

Y Pedwar Diben

Yn y pen draw, nod cwricwlwm hwn yw i gefnogi ein plant i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- gyfranwyr mentrus, creadigol
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- unigolion iach, hyderus

Mae'n arbenning o bwysig i ni sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ein lleoliad yn darparu cyfleoedd cyson ar gyfer y canlynol:

- chwarae a dysgu seiliedig ar chwarae
- bod yn yr awyr agored
- dysgu dilys a phwrpasol
- llythrennedd corfforol



Beth sydd yn newydd?

■ Oedolion sy'n galluogi Dysgu

Dylem –

- gwneud cysylltiadau cryf â chartref a chymuned y plentyn
- fodelu agwedd lawen at ddysgu
- annog a chefnogi chwilfrydedd naturiol plant

■ Profiadau sy'n ennyn diddordeb

Dylent –

- fod yn ymarferol, yn bwrpasol ac yn ystyrlon i'r plentyn
- annog plant i fod yn annibynnol, gan gynnig risg, her a chyfleoedd i brofi llwyddiant
- fod yn seiliedig ar gyd-destunau dilys bywyd go iawn

■ Amgylcheddau effeithiol

Dylent –

- fod tu mewn a thu allan ac yn brofiadau dilys
- cynnig cyfleoedd i archwilio'r amgylchedd – tu fewn a thu allan
- galluogi plant i fynegi eu hunain yn gorfforol, yn greadigol ac yn ddychmygus

Anghenion y plentyn – Y Llwybrau Datblygu

Wrth wradd y cwricwlwm hwn mae pum llwybr datblygu allweddol sy'n hanfodol er mwyn i bob plentyn ifanc ddysgu a datblygu. Mae'r llwybrau datblygu hyn yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn ddibynnol ar ei gilydd, ac maen nhw yr un mor bwysig â'i gilydd o ran cefnogi datblygiad a chynnydd cyffredinol. Dylid defnyddio'r pum llwybr datblygu mewn ffordd holistaidd wrth gynllunio profiadau dysgu er mwyn sicrhau bod plant yn dysgu mewn ffordd dilys a phwrpasol.

Y pum llwybr datblygu yw:

Perthyn

Gall yr ymdeimlad hwn arwain at deimladau cadarnhaol o gysylltiad â'r cartref a'r lleoliad, a gall ymestyn i'r gymuned, i Gymru ac i'r byd ehangach.

Cyfathrebu

Mae cyfathrebu'n ymwneud â meithrin sgiliau gwranddo, talu sylw a deall, ochr yn ochr â geirfa a sgiliau siarad.

Archwilio


Mae plant yn ddatrysyr problemau parhaus sy'n aml yn cael pleser mewn digwyddiadau pob dydd ac yn cael eu rhyfeddu ganddyn nhw.

Datblygiad corfforol

Mae gan blant angen naturiol i symud, neu gael eu symud, ac i symud gwrthrychau a'u trin a'u trafod, yn aml dro ar ôl tro, fel rhan o'u datblygiad.

Lles

Mae'r oedolion, y profiadau a'r amgylcheddau y mae plant yn dod ar eu traws yn dylanwadu arnyn nhw. Pan fydd y tri yn cydweithio'n llwyddiannus, byddan nhw'n creu ymdeimlad cryf o les i bawb.



Pa gefnogaeth sydd ar gael ac beth sydd i ddod?

Dysgu proffesiynol ar gyfer cwricwlwm i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Mae modiwlau newydd wedi'u datblygu i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi i roi [cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ar waith](#).

Mae'r gyfres newydd o fodiwlau yn cyd-fynd â'r [modiwlau](#) a gyhoeddwyd ar Hwb, ac maent wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

Mae pob modiwl bellach ar gael ar [Hwb](#) a byddant yn eich helpu i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r pynciau canlynol:

- Y Cwricwlwm i Gymru a datblygu cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Y pum llwybr datblygiadol ac addysgeg
- Arweinyddiaeth mewn lleoliad meithrin nas cynhelir
- Datblygiad sgematig

Fe fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi trefniadau asesu newydd fydd yn cyd-fynd gyda'r cwricwlwm erbyn Medi 2023.